| RHIF RISG | CRYNODEB | AMCAN STRATEGOL GwE | RISG A NODWYD | TEBYGOLRWYDD RISG | EFFAITH RISG | TEBYGOLRWYDD X EFFAITH | GWEITHGAREDDAU PRESENNOL / LLINIARU | RISG WEDDILLIOL / RISG GYFFREDINOL | TEBYGOLRWYDD X EFFAITH | PERCHENNOG RISG | CAMAU GWEITHREDU YN Y DYFODOL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | Safonau | I GYD | Nad yw sgôp sylweddol y Diwygio Addysg sy'n mynd rhagddo, sy'n cynnwys atebolrwydd, dysgu proffesiynol, digidol, yr Iaith Gymraeg, datblygiad cwricwlwm, asesu, arweinyddiaeth ac ADY, yn cael ei gynnwys yn llawn a'i weithredu'n llwyddiannus. Mae ymwybyddiaeth ysgolion o'r pedwar diben Cwricwlwm i Gymru a datblygiad y Meysydd Dysgu a Phrofiad fel rhan o ddiwygio'r cwricwlwm yn amrywio ac mae rhywfaint o ansicrwydd mewn ysgolion. Mae newidiadau i'r cwricwlwm ac i gymwysterau yn creu ansicrwydd mewn ysgolion. Mae pandemig Covid-19 wedi lleihau amserlen i ysgolion weithio ar ymgysylltu â'u paratoadau Cwricwlwm i Gymru gwreiddiol. | U | U | 2A | Cyhoeddwyd y Cwricwlwm i Gymru ym mis Ionawr 2021 a roddodd gyfle i ysgolion fynd i'r afael â'r fframwaith a'r canllawiau. Llwyddodd bob clwstwr i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun dysgu proffesiynol traws ranbarthol ym mis Ionawr 2021. Er bod mwy na 300 o uwch arweinwyr wedi cofrestru ar y cychwyn, dim ond nifer bach o'r sesiynau hyn a gynhaliwyd. Wrth ymateb i Covid-19, rhoddwyd y gorau am y tro i'r gwaith ar gefnogi'r diwygio. Ym mis Medi 2020, ail-gydiwyd yn y gwaith Dysgu Proffesiynol (DP) traws ranbarthol hwn. Ym mis Ionawr 2021, roedd y cynnig DP yn ail gysylltu ag uwch arweinwyr ar y sesiynau arwain newid. Yn ystod mis Chwefror 2021, cofrestrodd fwy na 890 o aelodau am y 30 sesiwn cyntaf, er hynny rhoddwyd saib ar y DP yn sgil adborth ac i gydnabod y gwaith sydd gan ysgolion i'w wneud i ailagor. Yn ôl trafodaethau pellach ar draws y chwe ALl, gwelwyd bod Penaethiaid yn awyddus i beidio â cholli momentwm a bod dymuniad cryf i ysgolion cynradd ac uwchradd weithio ar hyn gyda'i gilydd. Er hynny, mae cydnabyddiaeth glir o'r pwysau o ran Graddau a Bennir gan Ganolfannau i ysgolion uwchradd. O ganlyniad, bydd y cynnig DP yn ail gychwyn ym mis Mai a mis Mehefin ac yn rhoi hyblygrwydd gyda weminarau wedi'u recordio ac yn cefnogi pob clwstwr ar lefel unigol i gyd-greu cynllun gweithredu. Bydd DP ar gynllunio ar gyfer newid yn y cwricwlwm i ddilyn yn rhithiol ym mis Mehefin/Gorffennaf. Mae GwE wedi cefnogi pob Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant (YCG) gyda DP. Mae'r Athro Graham Donaldson wedi bod yn bresennol i arwain a chynghori ac o ganlyniad, datblygir dealltwriaeth a negeseuon cyffredin drwy adnoddau h.y. Papurau Procio sy'n edrych ar arweinyddiaeth, addysgeg, asesu a dylunio'r cwricwlwm. Mae GwE yn parhau i drafod yn wythnosol gyda Llywodraeth Cymru, Estyn a chonsortia rhanbarthol eraill i gefnogi a chysoni'r dysgu wedi Covid-19 drwy ddiwygio. | C | 2B | Uwch Arweinydd - DLl | Parhau i gefnogi pob ysgol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd yn unol â disgwyliadau'r system yn y Daith hyd at 2022.<br>Cyfnod Dylunio, Cynllunio a Threialu<br>- Codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â phob ymarferydd ysgol o ganllaw Cwricwlwm Cymru a Dysgu Proffesiynol traws-ranbarthol i gefnogi. Gwneir hyn ar ffurf amrywiaeth o fforymau a rhwydweithiau pwnc sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys cynllunio cymorth ar draws y 6 Maes Dysgu a Phrofiad.<br>- Parhau i ymgysylltu â phob ysgol trwy'r cynnig PL rhanbarthol a hwyluso cydweithredu ar draws y continwwm 3-16 yn unol â chynllun gweithredu'r ysgol a'r clwstwr.<br>- Parhau i gefnogi pob ysgol i gynllunio ar gyfer disgwyliadau system a defnyddio cerrig milltir G6 Cwricwlwm Cymru, i gynnwys myfyrdodau ar unrhyw ddysgu ar ffyrdd newydd o weithio drwy Covid-19, cysoni'r dysgu drwy ddiwygio.<br>- Parhau â chyfarfodydd tîm llawn YCG rheolaidd i gefnogi gwneud synnwyr o'r Cwricwlwm i Gymru. Datblygu negeseuon cyson ar draws yr holl rwydweithiau drwy gasglu negeseuon allweddol, adnoddau cymorth, enghreifftiau o sut all ysgolion ymgysylltu a chamsyniadau.<br>- Parhau i gydweithio â Phrifysgol Bangor ac ysgolion Ymholi Proffesiynol Arweiniol i ddatblygu rôl ymholi proffesiynol o fewn dysgu ac addysgu.<br>- Datblygu sianeli cyfathrebu effeithiol ymhellach ar gyfer rhannu datblygiadau cwricwlwm. |
| 7 | Safonau | I GYD | Mae toriadau i gyllidebau ysgolion yn effeithio ar allu ysgolion i barhau i godi safonau. | U | U | 2A | Mae lefelau dirprwyo grantiau rhanbarthol ar ei uchaf ar hyn o bryd. | C/U | 2B/C | AauLl/Ysgolion | Parhau i sicrhau bod lefelau dirprwyo yn parhau i godi. Gweithio'n agos gyda LlC/AauLl ac Ysgolion er sicrhau y targedir cyllid yn briodol a'i ddirprwyo ymhellach. |
| 8 | Busnes | I GYD | Nid yw defnydd y Grant Gwella Addysg wedi'i ymgorffori yn llawn yn y dull rhanbarthol - arafu a lleihau effaith cyflwyno'r Cynllun Busnes Strategol | U | U | 2A | Cytunodd Bwrdd Rheoli GwE i gychwyn adolygiad o'r defnydd o'r EIG. Yn anffodus, oherwydd pandemig COVID-19, gohiriwyd yr adolygiad. | C | 2B | Bwrdd Rheoli | Mae angen cytundeb ynghylch amserlenni diwygiedig ar gyfer yr adolygiad. |
| 11 | Safonau | AS3 | Nad yw'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol/Perfformiad Disgyblion PYD. | C | C | 3A | Yr YCG Llesiant sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a monitro'r cynllun busnes mewn perthynas â dysgwyr bregus a GDD. Parhau i weithio mewn partneriaeth efo'r AauLl i ddatblygu ymhellach y monitro a'r gwerthuso i sicrhau cysondeb yn y rhanbarth. Mae'r Grwpiau Strategol Rhanbarthol yn cyfarfod yn dymhorol ac mae ganddynt gylch gwaith clir. Mae'r Dangosfwrdd Cynllunio Grantiau Rhanbarthol bellach yn weithredol ac yn cael ei ddefnyddio ar draws y rhanbarth i helpu gyda chynllunio a monitro'r GDD ar draws pob lleoliad. Cynhaliwyd Wythnos Ffocws GDD Genedlaethol ym mis Mawrth 2021 gyda mwy na 2500 yn bresennol. | C/I | 3B | YCG - Llesiant | Gweithredu'r camau o fewn y cynllun busnes a monitro cynnydd drwy gyfrwng y broses rheoli perfformiad. Mynychu cyfarfodydd dysgwyr Bregus GDD/PMG LlC er sicrhau cyfathrebu clir ac atebolrwydd rhanbarthol. Datblygu a gweithio gydag ysgolion i gwblhau'r Dangosfwrdd Cynllunio Grantiau Rhanbarthol ar gyfer 2021/22. |
| 14 | Safonau | AS1 | Amrywiad ym mherfformiad yr awdurdodau unigol yn CA4. Mae perfformiad disgyblion MATh mewn awdurdodau unigol ar draws y rhanbarth yn amrywio'n sylweddol. | U | C/U | 2A | Cynllunio fwy cadarn ar waith er mwyn sicrhau cymorth cynhwysfawr i ysgolion sy'n achosi pryder. Datblygir y peilot rhanbarthol i sicrhau cysondeb. Mae modelau ymgysylltu â chymheiriaid yn esblygu. Gwell gweithgareddau rhwydwaith a chynnig proffesiynol gyda phwyslais ar wella dysgu ac addysgu. | C | 2B/2C | Bwrdd Rheoli | Mae LlC wedi atal dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer 2020 a 2021 ac ni fyddant yn rhyddhau unrhyw ddata cymharol neu feincnodi. Gwaith cychwynnol ar ddatblygu fframwaith ansoddol. Trafodaethau parhaus gyda rhanddeiliaid i adnabod y ffordd orau o werthuso cynnydd yn CA4. |